

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2023 No. 299**

**Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd  
ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau  
Canlyniadol, Atodol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023**

**Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau  
Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006**

7.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol  
Cyffredinol) (Cymru) 2006<sup>(1)</sup> wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 3—

- (a) hepgorer paragraff 36 (ceisiadau gan Gynghorau Iechyd Cymuned am wybodaeth),
- (b) ym mharagraff 44(3) (mynd i fangre a'i harolygu gan y Bwrdd Iechyd Lleol) hepgorer “45  
or” a “, members of a Community Health Council”, ac
- (c) hepgorer paragraff 45 (mynd i fangre a'i harolygu gan aelodau o Gynghorau Iechyd  
Cymuned).

---

<sup>(1)</sup> [O.S. 2006/490 \(Cy. 59\)](#), a ddiwygiwyd gan [O.S. 2009/462](#); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn  
berthnasol i'r Rheoliadau hyn.